

## Bwletin Awdurdod S4C - Mawrth 2002

### CYFARFOD AGORED - RHYDAMAN

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 28 Chwefror 2002 yn Theatr y Glowyr, Rhydaman lle bu dros hanner cant o bobl yn bresennol. Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

### Y Defnydd o Saesneg Mewn Rhaglenni Cymraeg

Mynegodd aelod o'r gynulleidfa anfodlonrwydd gyda'r defnydd o Saesneg o fewn rhaglenni megis *Porc Peis Bach* a *Pam fi Duw?* Teimlwyd os mai rhaglenni Cymraeg oeddynt ni ddylid cynnwys unrhyw Saesneg ynddynt. Mynegodd gwyliwr arall farn wahanol trwy ddweud bod yna le ar gyfer y fath ddefnydd o Saesneg o fewn rhai rhaglenni Cymraeg. Gellid dadlau, er enghraifft, fod y defnydd o iaith mewn rhaglen fel yn *Pam fi Duw?* yn adlewyrchu'r ardal yr oedd y gyfres wedi'i lleoli ynddi. Soniodd aelod arall o'r gynulleidfa fod rhaglenni megis *Pam fi Duw* hefyd yn gallu denu pobl oedd yn dysgu'r iaith neu nad oedd yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r iaith. Roedd rhaglenni o'r fath felly yn ymestyn y gynulleidfa ar gyfer rhaglenni Cymraeg. O ganlyniad, teimlwyd gan rai ei bod hi'n bwysig iawn i ddarparu rhaglenni gyda gwahanol gyweirnodau.

### Chwaeth

Pwynt arall a godwyd oedd bod elfennau di-chwaeth o fewn rhai rhaglenni a rhoddwyd *Noson Lawen* fel esiampl penodol. Atebodd Huw Eirug fod S4C yn ymwybodol bod disgwyliadau'r gwylwyr yn creu ffin ac roedd y Sianel yn cymryd gofal mawr i geisio sicrhau nad oedd artistiaid yn croesi'r ffin hynny. Ond derbyniwyd y byddai rhai yn cael eu pechu gan gynnwys rhai rhaglenni. Cyfeiriodd Elan Closs Stephens hefyd at y ffaith fod gan S4C ganllawiau tynn yr oedd disgwyl i gwmnïau cynhyrchu gadw oddi mewn iddynt o safbwynt chwaeth a gwedduster. Yn wir, yr oedd gan S4C grwp o bobl oedd yn monitro'r gwasanaeth ac yn nodi unrhyw fannau lle'r oeddynt yn meddwl bod y canllawiau wedi'u torri. Felly, yr oedd hyn yn rhywbeth yr oedd y Sianel yn cymryd o ddifrif.

### Pobol y Cwm

Wrth sôn am groesi'r ffin ynglyn â chwaeth cyfeiriwyd at *Pobol y Cwm*. Teimlodd rhai bod pawb yn y sebon opera yn croesi'r ffin bob nos gyda'r holl gymeriadau yn cario ymlaen a'i gilydd. Fel ag yr oedd pethau, awgrymwyd y dylid felly ei darlledu ar ôl 10 o'r gloch y nos gyda rhybudd arni.

Aeth aelod arall o'r gynulleidfa ymlaen i ddweud nad oedd *Pobol y Cwm* yn cynnig yr un lefel o fwynhad ag yr oedd yn y gorffennol. Roedd y gyfres wedi bod yn boblogaidd am gymaint o amser ond nawr roedd hi'n syndod faint o wylwyr a oedd wedi bod yn ffyddlon oedd wedi rhoi'r gorau i'w gwyllo. Teimlwyd ei bod wedi mynd yn gyfyng iawn gydag ond tri lleoliad – y Deri, y siop, a thy y myfyrwyr. Os taw'r bwriad oedd i bortreadu pentref nodweddiadol o bentrefi Cymru ni ellid meddwl am unrhyw bentref nad oedd ganddi ysgol gynradd a chapel yn rhan o'i bywyd. Hefyd, dywedwyd os bosib fod yna o leiaf rhai priodasau hapus ym mhob pentref.

Gwnaeth aelod arall o'r gynulleidfa gyfeirio at yr hyn a welwyd fel ymosodiadau *Pobol y Cwm* (a rhaglenni eraill) ar Gristnogaeth. Teimlwyd yn benodol for yna enghreifftiau o ddeialog oedd yn dilorni y bywyd Cristnogol mewn ffordd na fyddai'n cael eu caniatáu yn achos crefydd eraill. Roedd yna dueddiad i danseilio popeth oedd yn gysylltiedig â'r Capel Gymraeg ar *Pobol y Cwm* yn ddiweddar ac nid oedd hynny yn dderbyniol. Ychwanegodd aelod arall o'r gynulleidfa fod yna ddigon o straeon y gellid sefydlu o gwmpas elfennau positif y Capel yn y Gymru gyfoes.

Nododd Elan Closs Stephens y pwyntiau a wnaethpwyd a chadarnhawyd y byddai S4C yn codi'r pwyntiau hyn gyda'r BBC oedd yn cynhyrchu'r gyfres. Aeth Huw Jones ymlaen i ddweud yr hyn fyddai'n ddiddorol oedd ceisio deall beth oedd tu ôl yr ymateb i *Pobol y Cwm*. Roedd straeon tebyg, er enghraifft, o fewn cyfresi sebon Saesneg megis *Emmerdale*, *Eastenders* a *Coronation Street*.

### ***Heno a Wedi 6***

Holwyd am y penderfyniad i ddod i ben â *Heno* a chyflwyno yn ei lle rhaglen *Wedi 6* a oedd yn cael ei gweld yn rhaglen rhy fyr. Atebodd Huw Eirug mai pwrpas *Wedi 6* oedd i adlewyrchu gymaint o gymunedau Cymru â phosib. Roedd nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru yn croesawu dyfodiad *Wedi 6* gan fod eu cymunedau nhw bellach wedi cael sylw. Roedd S4C hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r awr roedd *Heno* yn cael ei darlledu ynddi i gynnig mathau gwahanol o raglenni. Roedd yn dda i weld bod *Rownd a Rownd* wedi cael ymateb positif iawn yn ei slot newydd am 6.30 pm, a bod roedd *Byd Pws* hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn y slot yma. Gan wrth gwrs barchu'r farn a fynegwyd, roedd S4C ar hyn o bryd yn hapus gyda'i phenderfyniad i ddod â *Heno* i ben a chynnig rhaglenni eraill yn ei lle.

### **Pencadlys S4C**

Holwyd os oedd S4C wedi ystyried symud pencadlys S4C allan o Gaerdydd i rywle fel Gwynedd, Ceredigion neu Sir Gâr er mwyn dod yn agosach at y gynulleidfa craidd a hefyd i hybu'r economi. Teimlwyd bod gan Gymru ar hyn o bryd ddau economi. Roedd dwyrain Cymru'n ffyniannus dros ben ac ardaloedd fel Sir Gâr yn dioddef. Atebodd Elan Closs Stephens fod lleoliad y pencadlys yn rhywbeth i'w drafod yn ofalus. Roedd S4C yn ymwybodol fod y mater o symud sefydliadau allan o Gaerdydd ar yr agenda wleidyddol ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd i ystyried y cwestiwn yng ngoleuni ei phrif gyfrifoldeb o sicrhau gwasanaeth deledu o'r safon uchaf posib

Er hynny, roedd yn bwysig i gadw mewn cof mai dim ond 10% o wariant S4C oedd tu fewn i'r pencadlys. Roedd y 90% arall o'r gwariant yn y cwmnioedd bychain mewn ardaloedd fel Gwynedd, Llandeilo a Llanelli. Yn y cwmnïau annibynnol roedd y cyfleoedd ar gyfer cynhyrchwyr, pobl camera, actorion, ac ati. Y cyfleon tu fewn i'r pencadlys oedd i fod yn dechnegwyr, cyfreithwyr, a phobl costau ariannol. Wedi dweud hynny, yn amlwg fe fyddai symud nifer of swyddi da i unrhyw ardal yn cryfhau'r ardal honno. Roedd hyn yn fater y byddai'n rhaid i S4C roi meddwl pellach iddo. Y brif ystyriaeth i'r Sianel er hynny oedd sut y gallai gwasanaethu ei wylwyr ar y sgrîn orau, a chadw unrhyw wariant nad oedd yn cyfrannu at y gwasanaeth ar y sgrin i'r ffigwr isaf posib.

## **Rhaglenni Cerddorol**

Soniwyd fod Cymru i fod yn wlad y gân, ond nid oedd yna lawer o ganu ar y teledu. Tra roedd canu ymlaen adeg yr Eisteddfod nid oedd llawer yn cael ei gynnig ar wahân i hynny. Dymunwyd gweld unigolion a chorau yn canu, nid yn unig corau meibion ond corau cymysg hefyd er mwyn annog pobl ifanc i ganu mewn corau. Awgrymwyd y byddai Alwyn Humprheys yn siwr o fod yn fodlon darparu rhywbeth. Dylai S4C annog y fath hyn o beth. Cyfeiriwyd hefyd yn ôl i'r 1960au pan oedd gan Raymond Edwards raglen lle'r oedd corau pentrefi yn canu, ac awgrymwyd bod yna dal i fod ddigon o gorau pentref ar gael i wneud rhaglen debyg. Atebodd Huw Eirug ei bod hi'n ddi-ddorol sylwi nad oedd yna lawer o raglenni canu bellach yn cael eu darlledu yn gyffredinol y dyddiau hyn, gan gynnwys ar y sianelau Saesneg. Yr hyn oedd yn tueddu digwydd oedd cael cwpl o ganeuon o fewn rhaglen sgwrsio – fel oedd yn digwydd yn *Nia* er enghraifft. Er hynny, yr hyn yr oedd S4C yn ceisio ei wneud oedd i ganolbwyntio ar greu cyngherddau arbennig a digwyddiadau. Rhoddodd yr esiampl o'r gystadleuaeth ar gyfer corau a lansiwyd pythefnos ynghynt ac a fyddai'n cael ei darlledu yn ystod Gwanwyn 2003.

## **Planed Plant Bach**

Holwyd ynglyn â phenderfyniadau amser darlledu Planed Plant Bach a chyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn amser anghyfleus i rai ysgolion. Roedd y ffaith bod yr amser cychwyn yn aml yn newid heb rybudd ar adegau pan oedd golff neu rasmus ceffylau arno hefyd yn achosi problemau i ysgolion oedd eisiau recordio'r rhaglenni. Atebodd Huw Eirug fod y penderfyniad i newid amser Planed Plant Bach a Planed Plant wedi'i gymryd ar ôl ymgynghoriad ac yr oedd y penderfyniad yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd oddi wrth nifer o gyrff addysgiadol tu allan i S4C. Mor belled ag oedd y newid amser yny cwestiwn, dywedodd Huw Jones fod rhaid cydnabod bod y criced yn gallu achosi problemau, oherwydd unwaith i'r sianel ddechrau darlledu gem brawf yna roedd y gynulleidfa honno yn disgwyl gweld i'r diwedd. Er hynny, credwyd mai criced oedd yr unig achos lle'r oedd Plant Plant yn cael ei symud ac ar wahân i hynny roedd yr amser darlledu yn un cyson. Serch hyn, fe fyddai swyddogion y Sianel yn cadw golwg ar hwn.

Holodd Elan Closs Stephens ymhellach am Planed Plant Bach, gan ofyn am sylwadau am y rhaglenni. Dywedwyd bod *Tecwyn* y *Tractor* yn plesio'n fawr iawn, ac roedd Sali Mali hefyd yn rhoi mwynhad, fel ag yr oedd *Ding Dong*. Roedd yn drueni nad oedd *Pingu* yn cael ei darlledu bellach. Ar y cyfan yr oedd y plant ysgol yn mwynhau Planed Plant Bach.

Awgrymwyd hefyd y dylai S4C gynnig fwy o raglenni oedd yn canolbwyntio ar rifedd a llythrennedd. Ychwanegwyd at hyn bod yna le hefyd am raglenni dweud storiâu (o'r math 'Jackanory') gan gynnwys cyflwyno hen chwedlau Cymraeg.

## **Teledu Digidol**

Holwyd pryd fyddai teledu analog yn cael ei ddiffodd gyda phawb yn mynd yn llwyr i raglenni digidol. Atebodd Huw Jones nad oedd unrhyw un yn gwybod yn iawn. Roedd y llywodraeth yn gobeithio y byddai hyn yn digwydd rhywbryd rhwng 2006 a 2010, ond ni fyddant yn gwneud hynny hyd nes byddai 95% o'r boblogaeth yn gallu derbyn digidol. Soniodd am focsys ben set ar fin dod ar y farchnad am tua £100 fyddai yn galluogi pobl i gael teledu digidol trwy erial – os yn byw mewn ardal oedd yn gallu ei dderbyn. Unwaith roedd hyn ar gael fe fyddai yna ryw 15 sianel rad ac am ddim ar gael i bobl gan gynnwys S4C digidol, gwasanaethau newydd y BBC, ac ati. Fe allai hyn felly fod yn ddeniadol i bobl a'i perswadio i gael teledu digidol.

\*\*\*\*\*

## **CYFARFOD BUSNES - CAERFYRDDIN**

### **Cais S4C am Arian Ychwanegol - Cyfarfodydd gyda Gwleidyddion**

Adroddwyd ar cyfarfod a gafwyd gyda Paul Murphy, AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru; i drafod cais S4C am gyllid ychwanegol. Y gobaith oedd i drefnu cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn y dyfodol agos.

### **Elusen S4C**

Adroddwyd bod Panel yr Apêl wedi cyfarfod ac wedi llunio rhestr fer o'r ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer dewis Elusen S4C yn 2002. Roedd pethau'n symud ymlaen mewn ffordd amserol felly.

### **Ffigurau Gwyllo**

Nododd yr Aelodau y sefyllfa anfoddfaol a nodwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr parthed system newydd BARB ar gyfer mesur cynulleidfa. Ychwanegwyd bod y sefyllfa hefyd yn effeithio ar y gweithgareddau masnachol. Roedd y Prif Weithredwr, Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol a'r Pennaeth Ymchwil wedi trefnu i gyfarfod gyda BARB ar 5 Mawrth i drafod y mater ac i weld pa gamau oedd yn cael eu cymryd i geisio adfer y sefyllfa a chael ffigurau y gellid dibynnu arnynt.

### **BBC**

Adroddwyd bod y BBC wedi ysgrifennu yn ddiweddar i ofyn am fwy o fanylion am strategaeth rhaglenni S4C er mwyn medru cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu rhaglenni Cymraeg i'r Sianel. Croesawyd hyn yn fawr. Dyma oedd y cyfnod lle'r oedd S4C yn derbyn cynigion y BBC ac roedd hi'n bwysig fod darlun mor gyflawn â phosibl ganddynt o ddymuniadau a dyheadau'r Sianel.

## **Ail-leoli Pencadlys S4C**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol adroddiad cychwynol oedd yn gosod allan y prif ystyriaethau ymarferol byddai'n rhaid i'r Awdurdod eu pwysu a'u mesur wrth edrych ar y posibilrwydd o ail-leoli pencadlys S4C. Fe wnaeth yr Aelodau drafod rhai agweddau o'r adroddiad yn y cyfarfod hwn ond y byddai'r drafodaeth yn parhau yn y cyfarfod nesaf.

## **S4C a'r Mesur Cyfathrebu**

Trafododd yr Aelodau rai elfennau yn ymwneud â sefyllfa S4C yn y fframwaith rheoleiddio newydd a fyddai'n cael ei chyflwyno yn y Mesur Cyfathrebu. Y bwriad o hyd oedd i gyhoeddi'r Mseur yn hwyrach yn y Gwanwyn.

## **Cynllun Corfforaethol 2001-2003 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn**

Ystyriodd yr Awdurdod y sefyllfa ar y Cynllun Corfforaethol 2001-2003 hyd at ddiwedd y flwyddyn 2001. Nodwyd bod y mwyafrif mawr o'r targedau wedi'u cwrdd. Er hynny, sylwyd bod yr oriau drama a ddarllledwyd yn is na'r hyn a dargedwyd ond nodwyd mai'r anawsterau a gododd yn ystod cynhyrchiad y gyfres *Iechyd Da* oedd yn gyfrifol am hyn.

## **Ceisiadau Nawdd**

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth osod allan manylion pedwar cais am nawdd. Cytunwyd: Y dylid rhoi nawdd fel a ganlyn:

- Gwyl Ffilm Ryngwladol Caeredin - £10,000
- Cymdeithas Ddawns Werin Cymru - £500
- Clybiau Ffermwyr Ifanc - £5,500
- Black Light – £1,000

## **Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Animeiddio**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Animeiddio gyflwyniad ar brosiectau animeiddio S4C ers amser Super Ted. Gwelwyd tâp o glipiau yn dangos *Sam Tân, Hen Wr Lochnagar, Beryl, Gogs, Shakespeare Wedi'u Hanimeiddio; Barber of Seville, Testament, Chwedlau Caergrawnt, Gwr y Gwyrthiau*. Esboniwyd hefyd y cefndir i'r modd yr oedd y gystadleuaeth 'Short Shorts' wedi datblygu a dangoswyd esiamplau o'r storïau animeiddio 45 eiliad. Soniwyd am sut yr oedd y gystadleuaeth yn cefnogi ac yn cynorthwyo tyfu talent yn y diwydiant. Pan ddechreuodd y gystadleuaeth 35 o geisiadau a gafwyd, y llynedd derbyniwyd 200 ohonynt. Eleni byddai'r rhai mwyaf llwyddiannus yn gallu symud ymlaen i arddangos yn y Fforwm Cartwn. Digwyddiad gwerth £1 miliwn oedd y Fforwm Cartwn lle'r oedd dros 800 o bobl yn mynychu o bob cwr o Ewrop. Roedd y Fforwm wedi bod yn rhedeg am 12 mlynedd ac fe'i cynhaliwyd mewn gwlad wahanol pob blwyddyn. Eleni fe fyddai'n cael ei gynnal yn y Faenol, Gwynedd.

Soniwyd yna am gamp *Chwedlau'r Byd Wedi'u Hanimeiddio* lle'r oedd S4C a Chymru wedi ymddwyn fel dolen gyswllt i ddod â'r gwahanol wledydd at ei gilydd i gyflawni cynhyrchiad y 26 chwedl. Gwelwyd esiamplau chwedlau o Taiwan, Denmarc, ac Awstralia. Aethpwyd ymlaen i sôn am y rôl yr oedd S4C wedi ei chwarae yn y fenter Dramâu Shakespeare ar gyfer Ysgolion. Roedd hwn wedi dechrau ar gyfer ysgolion yn Ne Orllewin Cymru dwy flynedd yn ôl; llynedd aethpwyd a'r cynllun i Lundain lle cymerodd 60 ysgol rhan, gyda'r pedwar gorau yn llwyfannu eu dramâu yn Theatr y Duke of York, yn y West End. Eleni fe fyddai'r cynllun yn dod yn ôl i Gymru lle byddai ysgolion hyd a lled y wlad yn cymryd rhan. Roedd yna fwriad i ledaenu'r fenter yn 2003/2004 i'r gwahanol ranbarthau o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd neu nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Y Comisiwn Etholiadol: Adolygiad Darllediadau Gwleidyddol y Pleidiau 2001/2002
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2002
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol